## Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

## Penderfyniad y Llywydd o ran ffurf briodol Gorchmynion Arfaethedig

Mae'r Llywydd wedi penderfynu, o dan Reol Sefydlog 22.15, mai'r ffurf briodol ar gyfer Gorchmynion arfaethedig yw:

1. Rhaid gosod testun Gorchymyn arfaethedig mewn erthyglau wedi'u rhifo.

2. Rhaid defnyddio pennawd byr i ddisgrifio naill ai erthygl unigol neu grwp o erthyglau.

3. Rhaid defnyddio llythrennau bras mewn penawdau erthyglau a rhaid iddynt ymddangos yn union uwchben testun yr erthygl neu'r grwp o erthyglau perthnasol.

4. Caiff erthyglau eu rhannu'n baragraffau ac yn is-baragraffau a nodir gan ddefnyddio'r wyddor Saesneg.

5. Rhaid i'r Gorchymyn arfaethedig nodi teitl y Gorchymyn.

6. Dylid argraffu testun Gorchymyn arfaethedig drwy ddefnyddio'r ffont Times New Roman.

7. Caiff Nodyn Esboniadol ei gynnwys ar ôl testun y Gorchymyn arfaethedig.